

**Y Cynigion Statudol ar
gyfer Trawsnewid ac
Ad-drefnu Addysg
Uwchradd yn ardal
Dinefwr, Sir Gaerfyrddin**



Ymateb Ymgynghoriad gan:

Rhodri Glyn Thomas AC
&
Jonathan Edwards AS

Rhagair

Megis yr aelodau etholedig ar gyfer y Senedd a'r Cynulliad dros etholaeth Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, lle y lleolwyd y pum ysgol sydd yn cael eu trafod yng nghynlluniau arfaethedig statudol yr awdurdod lleol, credwn fod arnom ddyletswydd i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ers cyhoeddi ymgynghoriad anffurfiol yr awdurdod lleol ar ad-drefnu ysgolion ym mis Rhagfyr 2008, mae disgyblion, rhieni ac aelodau o'r gymuned o bob ardal yn yr etholaeth wedi cysylltu â ni. Maent i gyd wedi rhannu eu barn a chodi eu pryderon parthed opsiynau arfaethedig y Cyngor Sir ar gyfer ddyfodol addysg uwchradd yn ardaloedd Tywi, Aman a Gwendraeth.

Mae sylfaen yr ymateb hwn yn deillio o safbwyntiau a barn sydd wedi dod i'n sylw.

Cefndir

Fel nodwyd yn nogfen ymgynghorol yr awdurdod lleol, mae cyfres o strategaethau ddiweddar Llywodraeth Cymru wedi golygu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol fynd i'r afael ar y ddarpariaeth o addysg uwchradd sydd ar gael yn y sir. Un o egwyddorion cyffredinol Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 oedd i sicrhau bod cwricwlwm estynedig ar gael i ddisgyblion. Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion felly ddarparu isafswm o ddeg ar hugain o bynciau, academiaidd a galwedigaethol, ar gyfer disgyblion sydd rhwng 14-19 mlwydd oed.

Egwyddorion sylfaenol Mesur 2009 oedd i gydweithredu ac i gydweithio. Lle nad oedd modd i ysgolion gynnig cyrsiau galwedigaethol, roedd partneriaeth gyda'r coleg addysg bellach lleol yn hanfodol. Roedd y bartneriaeth hon yn cael ei hystyried yn hanfodol ar gyfer sefydliadau addysg bellach nad oeddent yn gallu cynnig cyrsiau academiaidd penodol.

Wrth werthfawrogi'r anawsterau daearyddol a allai cydweithrediad rhwng sefydliadau greu, rydym o'r farn dylai'r awdurdod lleol fel enghraifft o dryloywder, gyhoeddi'r holl ddogfennaeth i ddangos pa adolygiadau a gynhaliodd yr awdurdod lleol i fonitro pa mor dda oedd yr ysgolion a'r colegau'n cydweithio, o fewn Sir Gar ac yn drawsffiniol i ddarparu cwricwlwm estynedig, a pham bod yr awdurdod o'r farn taw ad-drefnu yn hytrach na chydweithrediad yw'r unig ffordd y gallant gwrdd â'r gofynion a amlinellwyd ym Mesur 2009.

Y cynnig ar gyfer Dyffryn Aman

Rydym yn croesawu'r cynnig i ddarparu cyfleusterau ar gyfer hyd at 24 o ddisgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Difrifol ac Anawsterau Dysgu Dwys yn Ysgol Dyffryn Aman. Bydd y cyfle i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol i dderbyn eu haddysg gyda chyfoedion mewn uned sydd yn fwy arbenigol ac ymroddedig yn sicr yn cynorthwyo rhai o'n disgyblion mwyaf bregus. Gan fod y cynnig yn golygu adleoli'r ddarpariaeth bresennol sydd yn bodoli ar gyfer disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig o Ysgol y Gwendraeth i Ysgol Dyffryn Aman, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol serch hynny, sicrhau bod rhieni'r plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig yn Ysgol y Gwendraeth a'r ysgolion sydd yn ffrydio'r ysgol honno, yn cael y cyfle i gymryd rhan parthed unrhyw newidiadau mewn darpariaeth y gorau po gyntaf.

Rydym hefyd yn croesawu'r cynydd o ysgol categori 2C i ysgol ddwyieithog categori 2B. Er bydd asesiadau ac adroddiadau o gydymffurfiad yr ysgol parthed darparu cwricwlwm dwyieithog yn cael eu cynnal gan arolygiadau Estyn, rydym yn argymhell bod yr awdurdod lleol yn gweithredu dull cefnogi i Ysgol Dyffryn Aman er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chefnogi trwy'r cyfnod pontio i ddarparu mwy o gyrsiau cyfrwng Cymraeg. Rydym hefyd am bwysleisio pwysigrwydd cydweithio rhwng Ysgol Dyffryn Aman a Choleg Sir Gâr i gynorthwyo cynyddu argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn y sefydliad addysg bellach.

Rydym hefyd yn nodi y cynnig i ymestyn dalgylch Ysgol Dyffryn Aman i'r de i gynnwys rhannau o Gwm Gwendraeth, canlyniad anochel wrth ystyried cynlluniau'r awdurdod i greu un ysgol categori 2A yng Nghwm Gwendraeth.

Mae'n hanfodol bod cynllun cludiant cynhwysfawr ar gael i'r rhieni a'r disgyblion i gyd a fydd yn dod o fewn y dalgylch newydd. Mae deddfwriaeth gadarn yn ei lle ar gyfer y ddarpariaeth o drafnidiaeth/cludiant i ysgolion a byddwn yn annog yr awdurdod lleol i sicrhau bod y rhieni a'r disgyblion i gyd yn llwyr ymwybodol o'r ddarpariaeth o gludiant sydd ar gael gan yr awdurdod lleol y gorau po gyntaf.

Y cynnig ar gyfer Cwm Gwendraeth

Rydym yn croesawu cadw Ysgol Maes yr Yrfa yn ysgol categori 2A. Yn ystod camau cyntaf ymgynghoriad anffurfiol yr awdurdod lleol fe codwyd nifer o bryderon parthed colli ysgol ddwyieithog yng Nghwm Gwendraeth.

Mae yna achos gryf i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol categori 2A yn parhau i wasanaethu'r ardal ac mae unrhyw fath o wrthwynebiad a welwyd parthed cau Ysgol y Gwendraeth i'w weld wedi crebachu.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i drafod a chysylltu gyda disgyblion a rhieni er mwyn dod i gasgliad parthed y ddarpariaeth ar gyfer y TGAU i ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 Ysgol y Gwendraeth yn 2014 a 2015. Dylai darparu addysg bob amser fod yn flaenoriaeth ac ni ellir caniatáu esgeuluso hyn wrth ad-drefnu neu gau adeiladau'r ysgol. Mae'n rhaid i'r awdurdod felly gyhoeddi'u cynlluniau y gorau po gyntaf.

Y cynnig ar gyfer Dyffryn Tywi

Gyda gofid y cyflawn ein siom gyda'r broses ymgynghorol yn ei chyfanrwydd wrth gyfeirio at Ysgol Pantycelyn ac Ysgol Tre-gib. Rydym wedi derbyn peth lliaws o sylwadau gan etholwyr ac rydym wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda thrigolion, rhieni a disgyblion yn ymwneud â'r lefel isel o dryloywder y broses.

Bydd yr awdurdod yn ymwybodol o'n pryderon parthed galw ar Atkins Cyf. I wneud y gwerthusiad technegol ar gyfer y safle newydd.

Mae'r awdurdod wedi cadarnhau mewn cais Rhyddid Gwybodaeth nad oedd unrhyw rôl / cylch gwaith / cylch gorchwyl wedi cael ei sefydlu cyn fod Atkins Cyf. yn cymryd rhan, a nad yw'r holl wybodaeth a ddarparodd Atkins Cyf. mewn cyfarfodydd wedi cael ei gofnodi neu'i recordio. Nid ydym felly yn gallu gweld sut yr ymgwymerwyd unrhyw broses dendro lawn heb gyfeiriad clir ar gyfer cwmnïau allanol i gyflwyno ceisiadau ar gyfer y gwaith. Gan nad yw'n pryderon wedi eu hateb gan yr awdurdod, nid oes gennym ddewis arall ond i ystyried y penderfyniad i ddewis ardal Llandeilo fel y lleoliad ffafriol yn benderfyniad a phenderfynwyd yn barod cyn y broses ymgynghorol.

Credwn fod angen i'r awdurdod gyhoeddi holl adroddiadau gwerthusiadau y safleoedd o'r ddau leoliad sef y tir ar Fferm Lodge, Llandeilo, ac ar safle'r 'Old Burden' wrth ymyl yr A40. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol amlinellu'n llawn pam yr ydynt yn ffafrio safle yn Llandeilo.

Mae nifer o bryderon wedi eu codi gan rieni yn cyfeirio at lifogydd a threfniadau trafniadaeth/cludiant. Mae'n rhaid i'r awdurdod gyhoeddi'r wybodaeth sydd ganddynt parthed pryderon llifogydd ar neu o amgylch y lleoliad arfaethedig yn Llandeilo.

Bydd y cyngor wrth gwrs yn ymwybodol o'r sialensiau enfawr logistaidd sydd yn eu hwynebu yn nhermau cludiant i'r disgyblion. Fel sy'n debyg yn y trefniadau arfaethedig ar gyfer Cwm Gwendraeth, mae'n hanfodol bod cynllun cludiant cynhwysfawr ar gael i'r holl rieni a disgyblion o Lanymddyfri a'r ardaloedd cyfagos. Mae deddfwriaeth gadarn yn ei lle ar gyfer y ddarpariaeth o gludiant i'r ysgol a byddwn yn annog yr awdurdod lleol i sicrhau bod y rhieni a'r disgyblion yn llwyr ymwybodol o'r ddarpariaeth trafndiaeth/cludiant sydd ar gael gan yr awdurdod lleol gorau po gyntaf.

Rydym yn argymhell cyhoeddi gwybodaeth sy'n dangos yr ystyriaeth a roddwyd gan yr awdurdod lleol i lefelau traffig cynyddol yn Llandeilo yn sgil diffinio'r dref yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer.

Rydym yn croesawu diffinio'r ysgol newydd yn ysgol ddwyieithog categori 2B. Wrth ddweud hynny, nid ydym o'r farn bod yr awdurdod wedi cynnal ymgynghoriad llawn a phriodol er mwyn mesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg, ac rydym yn dal heb ein hargyhoeddi bod addysg 2B yn ddigonol i sicrhau dilyniant ieithyddol o'r ysgolion cynradd yn yr ardal.

Mae argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn broblem hanesyddol ar gyfer yr awdurdod lleol. Gan fod yr awdurdod yn mynnu ysgol categori 2B mae angen sicrhau arnom y bydd y plant yn cael y dewis i ddilyn eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn debyg i Ysgol Dyffryn Aman, bydd asesiadau ac adroddiadau yn cael ei chynnal gan arolygiadau Estyn i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio i ddarparu addysg ddwyieithog. Serch hynny rydym hefyd yn argymhell bod yr awdurdod lleol yn gweithredu dull cefnogi ar gyfer yr ysgol newydd er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn derbyn cymorth a chefnogaeth i ddarparu mwy o gyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Hoffem longyfarch Ysgol Pantycelyn am y gwelliannau a nodwyd yn adroddiad arolwg diweddera Estyn ers i'r pennaeth newydd dros dro fod ar waith –“Mae arweinyddiaeth a rheolaeth ddynamig y pennaeth dros dro, gyda chymorth da gan y tîm uwch, eisoes wedi arwain at welliannau sylweddol”.

Ni all yr awdurdod lleol ganiatáu i Lanymddyfri droi'n anialwch addysgol. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gydnabod yr angen am ryw fath o 'sefydliad', o bosib o fewn y sector cyhoeddus; i'w lleoli yn Lanymddyfri pe byddai'r awdurdod yn gweithredu ar eu hopsiwn dewisol i gau Ysgol Pantycelyn .

Mae gan yr awdurdod ddyletswydd i sicrhau nad yw statws Lanymddyfri fel tref bwysig iawn o fewn Sir Gaerfyrddin, yn cael ei niweidio os yn cau Ysgol Pantycelyn.

Rydym yn argymhell y dylid gwneud asesiad o'r dref ei hun y gorau po gynted i ystyried pa wasanaethau cyhoeddus a chyfleusterau sydd ar gael, a'r hyn y gellir ei wella i sicrhau bod Llanymddyfri yn parhau i fod yn dref atyniadol ar gyfer ymwelwyr a'r rheiny sydd yn dewis gwneud Sir Gaerfyrddin yn gartref iddynt.

Casgliad

I gloi credwn fod yna gefnogaeth eang i'r cynigion ar gyfer Ysgol Maes y Yrfa, Ysgol y Gwendraeth ac Ysgol Dyffryn Aman. . Mae'n rhaid i'r cyngor gydnabod y diffyg hyder yn y broses oddi wrth y sawl sydd yn byw yn Llanymddyfri a'r ardal cyfagos.

Mae'n amlwg bod nifer o 'r cynlluniau wedi eu penderfynu yn barod ar gyfer dyfodol yr ysgolion; mae'r ddogfen ymgynghorol ei hun eisoes yn dangos enghreifftiau o estyniadau i'r ysgolion a darluniad pellach ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig. Wrth werthfawrogi bod angen i'r awdurdod baratoi fel ag y bo modd, nid yw hyn yn cyd-fynd yn dda gyda rhieni a disgyblion sydd yn cael eu hymgynghori ar gynlluniau'r dyfodol tra ei fod yn amlwg bod yr awdurdod eisoes wedi gwario maint sylweddol o arian ar yr hyn y credant yw'r ffordd gorau ymlaen.

O gofio bod pob cynllun wedi cael eu llunio ar gyfer y tair ysgol, er mwyn bod yn dryloyw rydym yn argymhell i'r awdurdod roi cyhoeddusrwydd i holl gostau amcangyfrifedig ar gyfer yr holl waith adeiladu.

Dylai'r awdurdod edrych ar hyrwyddo agenda "Ysgolion sydd wedi'i selio ar y Gymuned" lle mae'r cyfleusterau yn cael eu cynnig i'r gymuned hefyd. Pu'n a yw hyn y pwll nofio neu'r llyfrgell, credwn fod yma le i'r awdurdod lleol, yn eu hanterth i wneud arbedion effeithlonrwydd, edrych ar ba wasanaethau y gellid cynnig ar gyfer defnydd y gymuned. Yn amlwg, lles y disgyblion a'r athrawon sydd yn holl bwysig a byddai'r fath gynllun yn pennu'r cynllun/trefniadau diogelwch ar gyfer yr ysgol.

Yn olaf, credwn fod y broses ymgynghorol yn sicr wedi peri diffygion tryloywder. Mae'n rhaid i'r awdurdod, fel mater o frys, gyhoeddi'r holl wybodaeth sydd ganddynt parthed lleoliad yr ysgol newydd yn Nyffryn Tywi. Ni ddylai pryderon llifogydd a thraffig gael eu ohirio hyd nes y gofynnir am ganiatâd cynllunio. Mae angen ar ddisgyblion a rhieni atebion i'w pryderon. Ni fydd unrhyw fath o oedi yn helpu i godi y lefel o ymddiriedaeth sydd eisoes yn isel o fewn yr awdurdod lleol.



Rhodri Glyn Thomas AC
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



Jonathan Edwards AS
Dwyrain Caerfyrddin & Dinefwr